# £19.2 miliwn ar gyfer prosiect gwyliadwriaeth traws-lywodraethol i ddiogelu iechyd y cyhoedd

Mae'r prosiect yn dwyn ynghyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), Safonau Bwyd yr Alban (FSS ), Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), Iechyd Cyhoeddus Lloegr (PHE), ac Asiantaeth yr Amgylchedd i brofi cymhwyso technolegau genomig wrth gadw golwg ar bathogenau a gludir gan fwyd a microbau ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) ym mhob un o bedair gwlad y Deyrnas Unedig (DU).

Bydd yr arian yn cefnogi prosiect tair blynedd gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith gwyliadwriaeth cenedlaethol peilot. Bydd yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ym maes dilyniannu DNA a samplu amgylcheddol i wella canfod ac olrhain pathogenau a gludir gan fwyd a phathogenau ymwrthedd gwrthficrobaidd trwy'r system fwyd-amaeth gyfan o'r fferm i'r fforc. Bydd cronfa ddata newydd wrth wraidd y rhwydwaith 'rhithwir' hwn a fydd yn caniatáu dadansoddi, storio a rhannu dilyniant pathogenau a ffynonellau data, a gesglir o sawl lleoliad ledled y DU gan y llywodraeth a sefydliadau cyhoeddus.

> Amcangyfrifir bod clefydau a gludir gan fwyd yn y DU yn achosi tua 2.4 miliwn o achosion o salwch y flwyddyn. Amcangyfrifir bod cost y baich hwn ar gymdeithas dros £9 biliwn y flwyddyn. Dyluniwyd y prosiect hwn i helpu i ddiogelu bwyd, amaethyddiaeth a defnyddwyr yn y DU trwy ddefnyddio technoleg flaengar i ddeall sut mae pathogenau ac AMR yn lledaenu. Yn y pen draw, bydd olrhain ffynhonnell y materion hyn yn ein helpu i ddatblygu gwell strategaethau rheoli i leihau salwch a marwolaethau.
>
> Yr Athro Robin May, Prif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB

> Mae ymwrthedd gwrthficrobaidd yn peri risg mawr i iechyd y cyhoedd, a gallai gwrthfiotigau, nad ydynt yn effeithiol mwyach, achosi 10 miliwn o farwolaethau bob blwyddyn ledled y byd erbyn 2050. I roi hyn yn ei gyd-destun, mae'r pandemig presennol hyd yma wedi achosi tua thair miliwn o farwolaethau yn fyd-eang.
>
> Mae gwerthiannau gwrthfiotigau yn y DU ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd wedi haneru yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Bydd y prosiect newydd hanfodol hwn yn adeiladu ar y cynnydd hwnnw, ac yn sicrhau bod gwrthfiotigau'n parhau i fod yn effeithiol i bobl ac i anifeiliaid.
>
> Yr Athro Gideon Henderson, Prif Gynghorydd Gwyddonol Defra

Mae AMR yn bandemig distaw sydd eisoes yn fygythiad difrifol i feddygaeth fodern a'n planed, trwy wneud heintiau cyffredin yn anoddach eu trin mewn bodau dynol ac anifeiliaid. Er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiad byd-eang hwn, mae angen i ni wneud gwell defnydd o'n datblygiadau technolegol, a chryfhau ein gallu i gasglu, dadansoddi a rhannu data iechyd o bob agwedd ar fywyd.

Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yng nghyfarfodydd G7 eleni, bydd y prosiect newydd hwn yn ein helpu i nodi sut mae pathogenau ac AMR yn lledaenu, a hynny trwy ddadansoddi ffactorau bwyd, yr amgylchedd ac iechyd. Trwy'r dull cydgysylltiedig hwn, byddwn ni'n gallu cymryd camau pendant i achub miloedd o fywydau bob blwyddyn.

Y Fonesig Sally Davies, Llysgennad Arbennig y DU ar AMR

Mae'r prosiect hwn yn adlewyrchu'r dull "Un Iechyd", gan gydnabod bod cysylltiad rhwng iechyd, bwyd a'r amgylchedd, ac y gall AMR yn yr amgylchedd arwain at oblygiadau difrifol i sectorau eraill.

Bydd y prosiect hwn yn ein helpu i ddeall y rôl gymhleth y mae'r amgylchedd yn ei chwarae wrth ddatblygu, cynnal a chludo ymwrthedd sy'n arwain at ddod i gysylltiad â phobl, anifeiliaid a chnydau. O'r diwedd, gallwn ni ddechrau defnyddio gwybodaeth amgylcheddol er mwyn adeiladu dull "Un Iechyd" go iawn tuag at AMR.

Yr Athro Doug Wilson, Prif Wyddonydd Asiantaeth yr Amgylchedd

Mae gweithio ar draws diwydiannau a gweithredu agwedd Un Iechyd yn rhan hanfodol o'n dull o ddeall ac olrhain ymwrthedd gwrthfiotig yn well, a sicrhau bod gwrthfiotigau'n parhau i weithio. Bydd ein gwaith gwyliadwriaeth parhaus a sefydledig ar ymwrthedd gwrthfiotigau mewn samplau gan gleifion â heintiau gastroberfeddol yn rhan bwysig o'r fenter ar y cyd hon, a bydd yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar draws y system.

Dr Neil Woodford, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaeth Heintiau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Lloegr

Mae Cronfa Canlyniadau a Rennir y Llywodraeth (SOF) yn profi dulliau arloesol i ddod â'r sector cyhoeddus ynghyd. Ei nod yw mynd i'r afael â materion trawsbynciol mewn modd sy'n gwella canlyniadau ac yn sicrhau gwerth am arian.